OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2024 Rhif 882 (Cy. 143)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 42) a Chefnffordd yr A48 (Cyfnewidfa Earlswood, Llansawel) (Terfyn Cyflymder Dros Dro a Chau'r Llain Galed Dros Dro) 2024

Gwnaed	*27 Awst 2024*
Yn dod i rym	*2 Medi 2024*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o'r M4 a Chefnffordd yr A48, wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig a/neu ei wahardd ar ddarnau penodedig o'r draffordd a'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffyrdd neu gerllaw iddynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi a chychwyn

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Traffordd yr M4 (Cyffordd 42) a Chefnffordd yr A48 (Cyfnewidfa Earlswood, Llansawel) (Terfyn Cyflymder Dros Dro a Chau'r Llain Galed Dros Dro) 2024 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 2 Medi 2024.

Dehongli

2. Yn y Gorchymyn hwn—

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 2 Medi 2024 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y draffordd" "*the motorway*" yw Traffordd yr M4 Llundain i Dde Cymru;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw Cefnffordd yr A48 Llundain i Abergwaun.

Cyfyngiad

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd modur yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r draffordd a'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn.

Gwaharddiad

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd ar y darnau o'r llain galed ar y draffordd a'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn.

Cymhwyso

5. Ni fydd y gwaharddiad na'r cyfyngiad yn erthyglau 3 a 4 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod para'r Gorchymyn hwn

6. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 27 Awst 2024

Tim Barnes
Is-adran y Rhwydwaith Ffyrdd Strategol
Thrafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

ATODLEN 1
Terfyn cyflymder 40 mya dros dro

Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain yr M4 sy'n dechrau o bwynt tua 30 o fetrau i'r de o Gyfnewidfa Llandarcy hyd at bwynt 600 metr i'r dwyrain o Brunel Way, gan gynnwys ffordd ymuno tua'r dwyrain Cyffordd 43 o Gyfnewidfa Llandarcy hyd at bwynt lle y mae'n ymuno â phrif gerbytffordd yr M4.

Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin yr M4 sy'n dechrau o bwynt 600 metr i'r dwyrain o Brunel Way hyd at bwynt tua 30 o fetrau i'r de o Gyfnewidfa Llandarcy, gan gynnwys ffordd ymadael tua'r gorllewin Cyffordd 43 o'r pwynt lle y mae'n ymwahanu oddi wrth brif gerbytffordd yr M4 hyd at Gyfnewidfa Llandarcy.

Y darn o ffordd ymuno tua'r dwyrain Cyffordd 42 yr M4 sy'n dechrau o bwynt lle y mae'n ymwahanu oddi wrth Gefnffordd yr A483 hyd at bwynt lle y mae'n cyfarfod â phrif gerbytffordd yr M4.

Y darn o ffordd ymuno tua'r gorllewin Cyffordd 42 yr M4 sy'n dechrau o bwynt lle y mae Cefnffyrdd yr A48 a'r A483 yn croesi hyd at bwynt lle y mae'n cyfarfod â phrif gerbytffordd yr M4.

Y darn o ffordd ymadael tua'r dwyrain Cyffordd 42 yr M4 sy'n dechrau o bwynt lle y mae'n ymwahanu oddi wrth brif gerbytffordd yr M4 hyd at bwynt lle y mae'n cyfarfod â chroesffordd Cefnffyrdd yr A48 a'r A483.

Y darn o'r A48 sy'n arwain at Gyffordd 42 yr M4 sy'n dechrau o gylchfan Brunel Way / yr A48 hyd at bwynt lle y mae'n cyfarfod â'r groesffordd â Chefnffordd yr A483.

ATODLEN 2
Gwahardd cerbydau rhag mynd ar y llain galed dros dro

Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain yr M4 sy'n dechrau o bwynt ar brif gerbytffordd yr M4 lle y mae ffordd ymadael tua'r dwyrain Cyffordd 42 yn dechrau hyd at bwynt 165 o fetrau i'r dwyrain o Gefnffordd yr A483 (islaw'r M4).

Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin yr M4 sy'n dechrau o bwynt ar brif gerbytffordd yr M4 165 o fetrau i'r dwyrain o Gefnffordd yr A483 (islaw'r M4) hyd at bwynt lle y mae ffordd ymuno tua'r gorllewin Cyffordd 42 yn dechrau.

Y darn o ffordd ymuno tua'r dwyrain Cyffordd 42 yr M4 sy'n dechrau o bwynt tua 50 metr i'r gogledd o drosbont yr M4 wrth ffordd ymuno tua'r dwyrain

Cyffordd 42 hyd at y pwynt lle y mae'r ffordd ymuno yn cyfarfod â phrif gerbytffordd yr M4.